



OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

**2019 Rhif 18 (Cy. 7)**

**2019 No. 18 (W. 7)**

**ANIFEILIAID, CYMRU**

**ANIMALS, WALES**

**ATAL CREULONDEB**

**PREVENTION OF CRUELTY**

**Gorchymyn Cymeradwyo Trapiau  
Sbring (Cymru) 2019**

**The Spring Traps Approval (Wales)  
Order 2019**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

*(This note is not part of the Order)*

O dan adran 8 o Ddeddf Plâu 1954, mae'n drosedd i ddefnyddio neu i ymwybodol ganiatáu defnyddio unrhyw drap sbring ac eithrio trap sydd wedi ei gymeradwyo drwy Orchymyn, ar anifeiliaid neu mewn amgylchiadau nad yw wedi ei gymeradwyo ar eu cyfer.

Under section 8 of the Pests Act 1954, it is an offence to use or knowingly to permit the use of any spring trap, other than a trap that has been approved by Order, for animals or in circumstances for which it is not approved.

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn Cymeradwyo Trapiau Sbring (Cymru) 2012, a gymeradwyodd y mathau o drapiau sbring i'w defnyddio yng Nghymru.

This Order revokes and replaces the Spring Traps Approval (Wales) Order 2012, which approved types of spring trap for use in Wales.

Mae erthygl 2 yn pennu'r trapiau cymeradwy, sef y rheini a restrir yng Ngholofn 1 o'r Atodlen ac eraill sy'n gyfwerth ym mhob modd perthnasol i'r rheini a restrir. Pennir yr amodau sydd ynghlwm â'r gymeradwyaeth ar gyfer pob un math o drap yng Ngholofn 2 o'r Atodlen.

Article 2 specifies approved traps, namely those listed in Column 1 of the Schedule and others which are equivalent in all relevant respects to those listed. Conditions attached to the approval of each type of trap are specified in Column 2 of the Schedule.

Hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd am y Gorchymyn hwn ar ffurf drafft yn unol â Chyfarwyddeb (EU) 2015/1535 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 9 Medi 2015 sy'n gosod gweithdrefn ar gyfer darparu gwybodaeth ym maes rheoliadau technegol a rheolau ar wasanaethau'r Gymdeithas Wybodaeth (OJ Rhif L 241, 17.9.2015, t. 1).

This Order was notified in draft to the European Commission in accordance with Directive (EU) 2015/1535 of the European Parliament and of the Council of 9 September 2015 laying down a procedure for the provision of information in the field of technical regulations and of rules on Information Society services (OJ No. L 241, 17.9.2015, p.1).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this Order.

**2019 Rhif 18 (Cy. 7)**

**2019 No. 18 (W. 7)**

**ANIFEILIAID, CYMRU**

**ANIMALS, WALES**

**ATAL CREULONDEB**

**PREVENTION OF CRUELTY**

**Gorchymyn Cymeradwyo Trapiau  
Sbring (Cymru) 2019**

**The Spring Traps Approval (Wales)  
Order 2019**

*Gwnaed* 8 Ionawr 2019  
*Yn dod i rym* 1 Chwefror 2019

*Made* 8 January 2019  
*Coming into force* 1 February 2019

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 8(3) a (7) o Ddeddf Plâu 1954(1), a freiniwyd bellach ynddynt hwy(2), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 8(3) and (7) of the Pests Act 1954(1) now vested in them(2), make the following Order.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**Title, commencement and application**

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cymeradwyo Trapiau Sbring (Cymru) 2019.

1.—(1) The title of this Order is the Spring Traps Approval (Wales) Order 2019.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(2) This Order applies in relation to Wales.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Chwefror 2019.

(3) This Order comes into force on 1 February 2019.

**Cymeradwyo trapiau sbring**

**Approval of spring traps**

2.—(1) At ddibenion adran 8(3) o Ddeddf Plâu 1954, mae'r trapiau sbring a ganlyn wedi eu cymeradwyo—

2.—(1) For the purposes of section 8(3) of the Pests Act 1954, the following spring traps are approved—

---

(1) 1954 p. 68. Diwygiwyd adran 8(7) gan adran 1(1) o Ddeddf Cyfraith Statud (Diddymiaidau) 1973 (p. 39) a Rhan 8 o Atodlen 1 iddi.

(2) Ailenwyd y Gweinidog Amaethyddiaeth a Physgodfeydd yn "the Minister for Agriculture, Fisheries and Food" ("y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd") pan drosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Bwyd i'r Gweinidog hwnnw gan O.S. 1955/554. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd y swyddogaethau i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi.

---

(1) 1954 c. 68. Section 8(7) was amended by section 1(1) of, and Part 8 of Schedule 1 to, the Statute Law (Repeals) Act 1973 (c. 39).

(2) The Minister of Agriculture and Fisheries was re-named "the Minister of Agriculture, Fisheries and Food" upon the transfer to that Minister of the functions of the Minister of Food by S.I. 1955/554. The functions of the Minister of Agriculture, Fisheries and Food were transferred, so far as exercisable in relation to Wales, to the National Assembly for Wales by article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). The functions were transferred to the Welsh Ministers by section 162 of, and paragraphs 30 and 32 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

- (a) trap sbring o fath a gwneuthuriad a bennir mewn cofnod yng Ngholofn 1 o'r Atodlen; a
- (b) trap sbring sy'n gyfwerth ym mhob modd perthnasol â thrap sbring o fath a gwneuthuriad a bennir mewn cofnod yng Ngholofn 1 o'r Atodlen.

(2) Mae'r cymeradwyaethau a roddir gan baragraff (1) yn ddarostyngedig i'r amodau hyn—

- (a) rhaid defnyddio'r trap yn unol â'r cyfarwyddiadau (os oes rhai) a ddarparwyd gan y gweithgynhyrhydd; a
- (b) i'r graddau sy'n ymarferol heb gyfaddawdu'n afresymol ei ddefnydd i ladd neu ddal rhywogaethau a dargedwyd, rhaid defnyddio'r trap mewn modd sy'n lleihau'r tebygolrwydd o ladd, dal neu anafu rhywogaethau nas targedwyd;

ac i unrhyw amodau pellach (os o gwbl) o ran yr anifeiliaid y caniateir defnyddio'r trap sbring mewn perthynas â hwy, a'r amgylchiadau y caniateir defnyddio'r trap sbring oddi tanynt, fel a bennir yn y cofnod cyfatebol yng Ngholofn 2 o'r Atodlen (neu, yn achos trap a gymeradwyir o dan baragraff (1)(b), fel a bennir mewn perthynas â'r trap y mae'n gyfwerth iddo at ddibenion y paragraff hwnnw).

(3) At ddibenion paragraff (1)(b), mae trap sbring yn gyfwerth ym mhob modd perthnasol â thrap sbring o fath a gwneuthuriad a bennir yn yr Atodlen os yw'n cyfateb i'r trap sbring a bennir o ran ei adeiladwaith, deunyddiau, grym effaith neu fomentwm, ac ym mhob modd arall sy'n berthnasol i'w effaith neu i'w fodd o weithredu fel trap.

## Dirymu

3. Mae Gorchymyn Cymeradwyo Trapiau Sbring (Cymru) 2012(1) wedi ei ddirymu.

- (a) a spring trap of a type and make specified in an entry in Column 1 of the Schedule; and
- (b) a spring trap which is equivalent in all relevant respects to a spring trap of a type and make specified in an entry in Column 1 of the Schedule.

(2) The approvals given by paragraph (1) are subject to the conditions that—

- (a) the trap must be used in accordance with the instructions (if any) provided by the manufacturer; and
- (b) so far as is practicable without unreasonably compromising its use for killing or taking target species, the trap must be used in a manner that minimises the likelihood of its killing, taking or injuring non-target species;

and to such further conditions (if any) as to the animals for which, and the circumstances in which, the spring trap may be used as are specified in the corresponding entry in Column 2 of the Schedule (or, in the case of a trap approved under paragraph (1)(b), as are specified in relation to the trap to which it is equivalent for the purposes of that paragraph).

(3) For the purposes of paragraph (1)(b), a spring trap is equivalent in all relevant respects to a spring trap of a type and make specified in the Schedule if it corresponds to the spring trap specified in its construction, in materials, in impact force or momentum, and in all other respects which are relevant to its effect or manner of operation as a trap.

## Revocation

3. The Spring Traps Approval (Wales) Order 2012(1) is revoked.

*Leslie Griffiths*

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,  
un o Weinidogion Cymru  
8 Ionawr 2019

Minister for Environment, Energy and Rural Affairs,  
one of the Welsh Ministers  
8 January 2019

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>	<i>Column 1</i>	<i>Column 2</i>
<i>Y math o drap a'i wneuthuriad</i>	<i>Amodau</i>	<i>Type and make of trap</i>	<i>Conditions</i>
<b>Aldrich Spring Activated Animal Snare</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, Mr D. Schimetz, P.O. Box 158, Sekiu, Washington 98381, UDA.	Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben dal mamaliaid mawr, daearol o urdd y cigyswyr, megis bleiddiaid.	<b>Aldrich Spring Activated Animal Snare</b> manufactured by or under the authority of Mr D. Schimetz, P.O. Box 158, Sekiu, Washington 98381, USA.	The trap may be used only for the purpose of taking large, terrestrial mammals of the order carnivora such as wolves.
<b>BMI Magnum 55</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, Butera Manufacturing Industries, 1068 E 134th St., Cleveland, OH, 44110-2248, UDA.	Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd gwiwerod llwyd, llygod mawr, llygod a fermin daear bach arall (ac eithrio'r rhywogaethau hynny a restrir yn Atodlen 5 neu 6 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(1)). Rhaid gosod y trap mewn twnnel naturiol neu artiffisial sydd, yn y naill achos neu'r llall, yn addas at y diben.	<b>BMI Magnum 55</b> manufactured by or under the authority of Butera Manufacturing Industries, 1068 E 134th St., Cleveland, OH, 44110-2248, USA.	The trap may be used only for the purpose of killing grey squirrels, rats, mice and other small ground vermin (except for those species listed in Schedule 5 or 6 to the Wildlife and Countryside Act 1981(1)). The trap must be set in a natural or artificial tunnel which is, in either case, suitable for the purpose.
<b>BMI Magnum 110</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, Butera Manufacturing Industries, 1068 E 134th St., Cleveland, OH, 44110-2248, UDA.	Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd gwiwerod llwyd, gwencïod, llygod mawr, llygod, fermin daear bach arall (ac eithrio'r rhywogaethau hynny a restrir yn Atodlen 5 neu 6 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981) a chyn 1 Ebrill 2020, carlymod. Rhaid gosod y trap mewn twnnel naturiol neu artiffisial sydd, yn y naill achos neu'r llall, yn addas at y diben.	<b>BMI Magnum 110</b> manufactured by or under the authority of Butera Manufacturing Industries, 1068 E 134th St., Cleveland, OH, 44110-2248, USA.	The trap may only be used for the purpose of killing grey squirrels, weasels, rats, mice, other small ground vermin (except for those species listed in Schedule 5 or 6 to the Wildlife and Countryside Act 1981) and, before 1 April 2020, stoat. The trap must be set in a natural or artificial tunnel which is, in either case, suitable for the purpose.

(1) 1981 p. 69. Diwygiwyd Atodlen 5 gan O.S. 1991/367, 1992/2350, 1998/878, 2007/1843, 2008/431, 2008/2172 a 2011/2015.

(1) 1981 c. 69. Schedule 5 was amended by S.I. 1991/367, 1992/2350, 1998/878, 2007/1843, 2008/431, 2008/2172 and 2011/2015.

<p><b>BMI Magnum 116</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, Butera Manufacturing Industries, 1068 E 134th St., Cleveland, OH, 44110-2248, UDA.</p>	<p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd gwiwerod llwyd, mincod, cwingnod, gwenciod, llygod mawr, llygod, fermin daear bach arall (ac eithrio'r rhywogaethau hynny a restrir yn Atodlen 5 neu 6 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981) a chyn 1 Ebrill 2020, carlymod.</p> <p>Rhaid gosod y trap mewn twnnel naturiol neu artiffisial sydd, yn y naill achos neu'r llall, yn addas at y diben.</p>	<p><b>BMI Magnum 116</b> manufactured by or under the authority of Butera Manufacturing Industries, 1068 E 134th St., Cleveland, OH, 44110-2248, USA.</p>	<p>The trap may only be used for the purpose of killing grey squirrels, mink, rabbits, weasels, rats, mice, other small ground vermin (except for those species listed in Schedule 5 or 6 to the Wildlife and Countryside Act 1981) and, before 1 April 2020, stoat.</p> <p>The trap must be set in a natural or artificial tunnel which is, in either case, suitable for the purpose.</p>
<p><b>DOC 150</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, Department of Conservation, Wellington, Seland Newydd.</p>	<p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd gwiwerod llwyd, llygod mawr, carlymod a gwenciod pan ddefnyddir y trap ar ffurf â phen caeedig.</p> <p>Rhaid gosod y trap mewn twnnel artiffisial a adeiladwyd i'r dyluniad a bennwyd gan yr Adran Gadwraeth, drwy ddefnyddio deunyddiau sy'n addas at y diben.</p> <p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd llygod mawr, carlymod a gwenciod pan ddefnyddir y trap ar ffurf y gall anifail redeg drwyddo.</p> <p>Rhaid gosod y trap yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchydd wrth ei osod ar ffurf y gall anifail redeg drwyddo mewn twnnel naturiol neu artiffisial sydd, yn y naill achos neu'r llall, yn addas at y diben.</p>	<p><b>DOC 150</b> manufactured by or under the authority of the Department of Conservation, Wellington, New Zealand.</p>	<p>When used in a closed-end trap configuration, the trap may be used only for the purpose of killing grey squirrels, rats, stoats and weasels.</p> <p>The trap must be set in an artificial tunnel constructed to the design specified by the Department of Conservation, using materials suitable for the purpose.</p> <p>When used in a run-through trap configuration, the trap may be used only for the purpose of killing rats, stoats and weasels.</p> <p>The trap must be set in accordance with the manufacturer's instructions for the run-through configuration in a natural or artificial tunnel which is, in either case, suitable for the purpose.</p>

<p><b>DOC 200</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, Department of Conservation, Wellington, Seland Newydd.</p>	<p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd gwiwerod llwyd, mincod, llygod mawr, carlymod a gwencïod pan ddefnyddir y trap ar ffurf â phen caeedig.</p> <p>Rhaid gosod y trap mewn twnnel artiffisial a adeiladwyd i'r dyluniad a bennwyd gan yr Adran Gadwraeth, drwy ddefnyddio deunyddiau sy'n addas at y diben.</p> <p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd llygod mawr, carlymod a gwencïod pan ddefnyddir y trap ar ffurf y gall anifail redeg drwyddo.</p> <p>Rhaid gosod y trap yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchydd wrth ei osod ar ffurf y gall anifail redeg drwyddo mewn twnnel naturiol neu artiffisial sydd, yn y naill achos neu'r llall, yn addas at y diben.</p>	<p><b>DOC 200</b> manufactured by or under the authority of the Department of Conservation, Wellington, New Zealand.</p>	<p>When used in a closed-end trap configuration, the trap may be used only for the purpose of killing grey squirrels, mink, rats, stoats and weasels.</p> <p>The trap must be set in an artificial tunnel constructed to the design specified by the Department of Conservation, using materials suitable for the purpose.</p> <p>When used in a run-through trap configuration, the trap may be used only for the purpose of killing rats, stoats and weasels.</p> <p>The trap must be set in accordance with the manufacturer's instructions for the run-through configuration in a natural or artificial tunnel which is, in either case, suitable for the purpose.</p>
<p><b>DOC 250</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, Department of Conservation, Wellington, Seland Newydd.</p>	<p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd gwiwerod llwyd, mincod, cwingod, llygod mawr, carlymod a gwencïod pan ddefnyddir y trap ar ffurf â phen caeedig.</p> <p>Rhaid gosod y trap mewn twnnel artiffisial a adeiladwyd i'r dyluniad a bennwyd gan yr Adran Gadwraeth, drwy ddefnyddio deunyddiau sy'n addas at y diben.</p> <p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd llygod mawr, carlymod a gwencïod pan ddefnyddir y trap ar ffurf y gall anifail redeg drwyddo.</p> <p>Rhaid gosod y trap yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchydd wrth ei osod ar ffurf y gall anifail redeg drwyddo mewn twnnel naturiol neu artiffisial sydd, yn y naill achos neu'r llall, yn addas at y diben.</p>	<p><b>DOC 250</b> manufactured by or under the authority of the Department of Conservation, Wellington, New Zealand.</p>	<p>When used in a closed-end trap configuration, the trap may be used only for the purpose of killing grey squirrels, mink, rabbits, rats, stoats and weasels.</p> <p>The trap must be set in an artificial tunnel constructed to the design specified by the Department of Conservation, using materials suitable for the purpose.</p> <p>When used in a run-through trap configuration, the trap may be used only for the purpose of killing rats, stoats and weasels.</p> <p>The trap must be set in accordance with the manufacturer's instructions for the run-through configuration in a natural or artificial tunnel which is, in either case, suitable for the purpose.</p>



<p><b>Duke 116</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, Duke Company, 508 E. Brame Avenue, West Point, MS 39773, UDA.</p>	<p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd gwiwerod llwyd. Rhaid gosod y trap mewn twnnel artiffisial sy'n addas at y diben.</p>	<p><b>Duke 116</b> manufactured by or under the authority of Duke Company, 508 E. Brame Avenue, West Point, MS 39773, USA.</p>	<p>The trap may be used only for the purpose of killing grey squirrels. The trap must be set in an artificial tunnel which is suitable for the purpose.</p>
<p><b>Fenn Rabbit Trap Mark I</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, DB Springs, Unit 1, Double Century Works, High Street, Astwood Bank, Redditch, Worcestershire, B96 6AR (yn flaenorol Mr A. A. Fenn o FHT Works, High Street, Astwood Bank, Redditch, Worcestershire).</p>	<p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd cwingod. Rhaid gosod y trap mewn twnnel naturiol neu artiffisial sydd, yn y naill achos neu'r llall, yn addas at y diben.</p>	<p><b>Fenn Rabbit Trap Mark I</b> manufactured by or under the authority of DB Springs, Unit 1, Double Century Works, High Street, Astwood Bank, Redditch, Worcestershire, B96 6AR (previously Mr A. A. Fenn of FHT Works, High Street, Astwood Bank, Redditch, Worcestershire).</p>	<p>The trap may be used only for the purpose of killing rabbits. The trap must be set in a natural or artificial tunnel which is, in either case, suitable for the purpose.</p>
<p><b>Fenn Vermin Trap Mark IV (Heavy Duty)</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, DB Springs, Unit 1, Double Century Works, High Street, Astwood Bank, Redditch, Worcestershire, B96 6AR (yn flaenorol Mr A. A. Fenn o FHT Works, High Street, Astwood Bank, Redditch, Worcestershire).</p>	<p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd gwiwerod llwyd, gwencïod, llygod mawr, llygod, fermin daear bach arall (ac eithrio'r rhywogaethau hynny a restrir yn Atodlen 5 neu 6 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981) a chyn 1 Ebrill 2020, carlymod. Rhaid gosod y trap mewn twnnel naturiol neu artiffisial sydd, yn y naill achos neu'r llall, yn addas at y diben.</p>	<p><b>Fenn Vermin Trap Mark IV (Heavy Duty)</b> manufactured by or under the authority of DB Springs, Unit 1, Double Century Works, High Street, Astwood Bank, Redditch, Worcestershire, B96 6AR (previously Mr A. A. Fenn of FHT Works, High Street, Astwood Bank, Redditch, Worcestershire).</p>	<p>The trap may be used only for the purpose of killing grey squirrels, weasels, rats, mice, other small ground vermin (except for those species listed in Schedule 5 or 6 to the Wildlife and Countryside Act 1981) and, before 1 April 2020, stoat. The trap must be set in a natural or artificial tunnel which is, in either case, suitable for the purpose.</p>
<p><b>Fenn Vermin Trap Mark VI (Dual Purpose)</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, DB Springs, Unit 1, Double Century Works, High Street, Astwood Bank, Redditch, Worcestershire, B96 6AR (yn flaenorol Mr A. A. Fenn o FHT Works, High Street, Astwood Bank, Redditch, Worcestershire).</p>	<p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd gwiwerod llwyd, mincod, cwingod, gwencïod, llygod mawr, llygod, fermin daear bach arall (ac eithrio'r rhywogaethau hynny a restrir yn Atodlen 5 neu 6 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981) a chyn 1 Ebrill 2020, carlymod. Rhaid gosod y trap mewn twnnel naturiol neu artiffisial sydd, yn y naill achos neu'r llall, yn addas at y diben.</p>	<p><b>Fenn Vermin Trap Mark VI (Dual Purpose)</b> manufactured by or under the authority of DB Springs, Unit 1, Double Century Works, High Street, Astwood Bank, Redditch, Worcestershire, B96 6AR (previously Mr A. A. Fenn of FHT Works, High Street, Astwood Bank, Redditch, Worcestershire).</p>	<p>The trap may be used only for the purpose of killing grey squirrels, mink, rabbits, weasels, rats, mice, other small ground vermin (except for those species listed in Schedule 5 or 6 to the Wildlife and Countryside Act 1981) and, before 1 April 2020, stoat. The trap must be set in a natural or artificial tunnel which is, in either case, suitable for the purpose.</p>

<p><b>Fuller Trap</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, Fuller Industries, Three Trees, Loxwood Road, Bucks Green, Rudgwick, Sussex.</p>	<p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd gwiwerod llwyd. Rhaid gosod y trap yn y gorchudd a ddarparwyd gan y gweithgynhyrchydd.</p>	<p><b>Fuller Trap</b> manufactured by or under the authority of Fuller Industries, Three Trees, Loxwood Road, Bucks Green, Rudgwick, Sussex.</p>	<p>The trap may be used only for the purpose of killing grey squirrels. The trap must be set within the housing provided by the manufacturer.</p>
<p><b>Goodnature A18 Grey Squirrel Trap</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, Goodnature Limited, 4-12 Cruickshank Street, Killbirnie 6022, Wellington, Seland Newydd.</p>	<p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd gwiwerod llwyd a llygod mawr. Rhaid gosod y trap mewn ffordd na ellir mynd i mewn iddo ond drwy dwnnel artiffisial sy'n addas at y diben.</p>	<p><b>Goodnature A18 Grey Squirrel Trap</b> manufactured by or under the authority of Goodnature Limited, 4-12 Cruickshank Street, Killbirnie 6022, Wellington, New Zealand.</p>	<p>The trap may be used only for the purpose of killing grey squirrels and rats. The trap must be placed so that it can only be entered by way of an artificial tunnel which is suitable for the purpose.</p>
<p><b>Goodnature A18 Mink Trap</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, Goodnature Limited, 4-12 Cruickshank Street, Killbirnie 6022, Wellington, Seland Newydd.</p>	<p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd mincod. Rhaid gosod y trap mewn ffordd na ellir mynd i mewn iddo ond drwy dwnnel artiffisial sy'n addas at y diben.</p>	<p><b>Goodnature A18 Mink Trap</b> manufactured by or under the authority of Goodnature Limited, 4-12 Cruickshank Street, Killbirnie 6022, Wellington, New Zealand.</p>	<p>The trap may be used only for the purpose of killing mink. The trap must be placed so that it can only be entered by way of an artificial tunnel which is suitable for the purpose.</p>
<p><b>Goodnature A24 Pro</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, Goodnature Limited, 4-12 Cruickshank Street, Killbirnie 6022, Wellington, Seland Newydd.</p>	<p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd llygod mawr a llygod. Rhaid gosod y trap mewn ffordd na ellir mynd i mewn iddo ond drwy dwnnel artiffisial sy'n addas at y diben.</p>	<p><b>Goodnature A24 Pro</b> manufactured by or under the authority of Goodnature Limited, 4-12 Cruickshank Street, Killbirnie 6022, Wellington, New Zealand.</p>	<p>The trap may be used only for the purpose of killing rats and mice. The trap must be placed so that it can only be entered by way of an artificial tunnel which is suitable for the purpose.</p>
<p><b>Goodnature A24 Rat and Stoat Trap</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, Goodnature Limited, 4-12 Cruickshank Street, Killbirnie 6022, Wellington, Seland Newydd.</p>	<p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd carlymod, llygod mawr, gwencïod a llygod. Rhaid gosod y trap mewn ffordd na ellir mynd i mewn iddo ond drwy dwnnel artiffisial sy'n addas at y diben.</p>	<p><b>Goodnature A24 Rat and Stoat Trap</b> manufactured by or under the authority of Goodnature Limited, 4-12 Cruickshank Street, Killbirnie 6022, Wellington, New Zealand.</p>	<p>The trap may be used only for the purpose of killing stoats, rats, weasels and mice. The trap must be placed so that it can only be entered by way of an artificial tunnel which is suitable for the purpose.</p>



<p><b>Kania Trap 2000</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, Kania Industries Inc., 63 Centennial Road, British Columbia, V9R 6N6, Canada.</p>	<p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd gwiwerod llwyd, mincod, gwenciod, pathewod bwytadwy (<i>Glis glis</i>)(1), llygod mawr, llygod, fermin daear bach arall (ac eithrio'r rhywogaethau hynny a restrir yn Atodlen 5 neu 6 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981) a chyn 1 Ebrill 2020, carlymod. Rhaid gosod y trap yn y gorchudd a ddarparwyd gan y gweithgynhyrchydd.</p>	<p><b>Kania Trap 2000</b> manufactured by or under the authority of Kania Industries Inc., 63 Centennial Road, British Columbia, V9R 6N6, Canada.</p>	<p>The trap may be used only for the purpose of killing grey squirrels, mink, weasels, edible dormice (<i>Glis glis</i>)(1), rats, mice, other small ground vermin (except for those species listed in Schedule 5 or 6 to the Wildlife and Countryside Act 1981), and, before 1 April 2020, stoat. The trap must be set within the housing provided by the manufacturer.</p>
<p><b>Kania Trap 2500</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, Kania Industries Inc., 63 Centennial Road, British Columbia, V9R 6N6, Canada.</p>	<p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd gwiwerod llwyd, mincod, cwningod, gwenciod, pathewod bwytadwy (<i>Glis glis</i>), llygod mawr, llygod a chyn 1 Ebrill 2020, carlymod. Rhaid gosod y trap mewn twnnel naturiol neu artiffisial sydd, yn y naill achos neu'r llall, yn addas at y diben.</p>	<p><b>Kania Trap 2500</b> manufactured by or under the authority of Kania Industries Inc., 63 Centennial Road, British Columbia, V9R 6N6, Canada.</p>	<p>The trap may be used only for the purpose of killing grey squirrels, mink, rabbits, weasels, edible dormice (<i>Glis glis</i>), rats, mice and, before 1 April 2020, stoat. The trap must be set in a natural or artificial tunnel which is, in either case, suitable for the purpose.</p>
<p><b>KORO Large Rodent Double Coil Spring Snap Trap</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, Koro Traps, Box 5 Grp.22 RR2, Dugald, Manitoba, R0E 0K0, Canada.</p>	<p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd gwiwerod llwyd a llygod mawr. Rhaid gosod y trap fel bod modd i anifeiliaid fynd i mewn iddo o'r tu blaen yn unig, a'i osod mewn twnnel dall artiffisial sy'n addas at y diben. (Y blaen yw'r ochr lle gellir darllen y llythrennau KORO gyferbyn â hwy y tu uchaf i fyny.)</p>	<p><b>KORO Large Rodent Double Coil Spring Snap Trap</b> manufactured by or under the authority of Koro Traps, Box 5 Grp.22 RR2, Dugald, Manitoba, R0E 0K0, Canada.</p>	<p>The trap may be used only for the purpose of killing grey squirrels and rats. The trap must be placed so that animals can only enter it from the front, and set within an artificial blind tunnel which is suitable for the purpose. (The front is the side from which the letters KORO can be read face-on and the correct way up.)</p>

(1) *Gweler*, er hynny adran 11(2)(b) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ac Atodlen 6 iddi. Yn rhinwedd y darpariaethau hynny, pa un a yw'r trap o dan sylw yn gymeradwy o dan y Gorchymyn hwn ai peidio, mae'n drosedd defnyddio unrhyw drap er mwyn dal neu ladd unrhyw bathew, ac eithrio yn unol â thrwydded a roddwyd gan yr awdurdod priodol o dan adran 16 o'r Ddeddf honno.

(1) *See*, however, section 11(2)(b) of, and Schedule 6 to, the Wildlife and Countryside Act 1981. By virtue of those provisions, whether or not the trap in question is approved by this Order, it is an offence to use any trap for the purpose of taking or killing any dormouse, except pursuant to a licence granted by the appropriate authority under section 16 of that Act.

<p><b>KORO Rodent Snap Trap</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, Koro Traps, Box 5 Grp.22 RR2, Dugald, Manitoba, R0E 0K0, Canada.</p>	<p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd llygod mawr a gwencïod. Rhaid gosod y trap fel bod modd i anifeiliaid fynd i mewn iddo o'r tu blaen yn unig, a'i osod mewn twnnel dall artiffisial sy'n addas at y diben. (Y blaen yw'r ochr lle gellir darllen y llythrennau KORO gyferbyn â hwy y tu uchaf i fyny.)</p>	<p><b>KORO Rodent Snap Trap</b> manufactured by or under the authority of Koro Traps, Box 5 Grp.22 RR2, Dugald, Manitoba, R0E 0K0, Canada.</p>	<p>The trap may be used only for the purpose of killing rats and weasels. The trap must be placed so that animals can only enter it from the front, and set within an artificial blind tunnel which is suitable for the purpose. (The front is the side from which the letters KORO can be read face-on and the correct way up.)</p>
<p><b>Nooski Rat Trap</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, Nooski Trap System, 50 White Street, Rotorua, Seland Newydd.</p>	<p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd llygod mawr. Rhaid gosod y trap yn y gorchudd a'r twnnel artiffisial a ddarparwyd gan y gweithgynhyrchydd.</p>	<p><b>Nooski Rat Trap</b> manufactured by or under the authority of Nooski Trap Systems, 50 White Street, Rotorua, New Zealand.</p>	<p>The trap may be used only for the purpose of killing rats. The trap must be set within the housing and artificial tunnel provided by the manufacturer.</p>
<p><b>Nooski Mouse Trap</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, Nooski Trap Systems, 50 White Street, Rotorua, Seland Newydd.</p>	<p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd llygod. Rhaid gosod y trap yn y gorchudd a'r twnnel artiffisial a ddarparwyd gan y gweithgynhyrchydd.</p>	<p><b>Nooski Mouse Trap</b> manufactured by or under the authority of Nooski Trap Systems, 50 White Street, Rotorua, New Zealand.</p>	<p>The trap may be used only for the purpose of killing mice. The trap must be set within the housing and artificial tunnel provided by the manufacturer.</p>
<p><b>Procull Trap</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, Elgeeco, 108 Downlands Way, South Wonston, Winchester, Hampshire, SO21 3HS.</p>	<p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd gwiwerod llwyd.</p>	<p><b>Procull Trap</b> manufactured by or under the authority of Elgeeco, 108 Downlands Way, South Wonston, Winchester, Hampshire, SO21 3HS.</p>	<p>The trap may be used only for the purpose of killing grey squirrels.</p>
<p><b>Skinns Superior Squirrel Trap</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, E. Skinns Ltd., Witham Road, Woodhall Spa, Lincolnshire, LN10 6QX.</p>	<p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd gwiwerod llwyd. Rhaid gosod y trap mewn twnnel naturiol neu artiffisial sydd, yn y naill achos neu'r llall, yn addas at y diben.</p>	<p><b>Skinns Superior Squirrel Trap</b> manufactured by or under the authority of E. Skinns Ltd., Witham Road, Woodhall Spa, Lincolnshire, LN10 6QX.</p>	<p>The trap may be used only for the purpose of killing grey squirrels. The trap must be set in a natural or artificial tunnel which is, in either case, suitable for the purpose.</p>
<p><b>Solway Spring Trap Mk4</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, Solway Feeders Ltd., Main Street, Dundrennan, Kirkcudbright, DG6 4QH.</p>	<p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd gwiwerod llwyd, gwencïod, pathewod bwytdwy (<i>Glis glis</i>), llygod mawr, llygod a chyn 1 Ebrill 2020, carlymod. Rhaid gosod y trap mewn twnnel naturiol neu artiffisial sydd, yn y naill achos neu'r llall, yn addas at y diben.</p>	<p><b>Solway Spring Trap Mk4</b> manufactured by or under the authority of Solway Feeders Ltd., Main Street, Dundrennan, Kirkcudbright, DG6 4QH.</p>	<p>The trap may be used only for the purpose of killing grey squirrels, weasels, edible dormice (<i>Glis glis</i>), rats, mice and, before 1 April 2020, stoat. The trap must be set in a natural or artificial tunnel which is, in either case, suitable for the purpose.</p>

<p><b>Solway Spring Trap Mk6</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, Solway Feeders Ltd., Main Street, Dundrennan, Kirkcudbright, DG6 4QH.</p>	<p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd gwiwerod llwyd, mincod, cwningod, gwencïod, pathewod bwytdwy (<i>Glis glis</i>), llygod mawr, llygod a chyn 1 Ebrill 2020, carlymod. Rhaid gosod y trap mewn twannel naturiol neu artiffisial sydd, yn y naill achos neu'r llall, yn addas at y diben.</p>	<p><b>Solway Spring Trap Mk6</b> manufactured by or under the authority of Solway Feeders Ltd., Main Street, Dundrennan, Kirkcudbright, DG6 4QH.</p>	<p>The trap may be used only for the purpose of killing grey squirrels, mink, rabbits, weasels, edible dormice (<i>Glis glis</i>), rats, mice and, before 1 April 2020, stoat. The trap must be set in a natural or artificial tunnel which is, in either case, suitable for the purpose.</p>
<p><b>Springer No. 4 Multi-purpose (Heavy Duty)</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, AB County Products Ltd., Unit 3, Wellington Works, 15 The High Street, Redditch, Worcestershire.</p>	<p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd gwiwerod llwyd, gwencïod, llygod mawr, llygod, fermin daear bach arall (ac eithrio'r rhywogaethau hynny a restrir yn Atodlen 5 neu 6 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981) a chyn 1 Ebrill 2020, carlymod. Rhaid gosod y trap mewn twannel naturiol neu artiffisial sydd, yn y naill achos neu'r llall, yn addas at y diben.</p>	<p><b>Springer No. 4 Multi-purpose (Heavy Duty)</b> manufactured by or under the authority of AB County Products Ltd., Unit 3, Wellington Works, 15 The High Street, Redditch, Worcestershire.</p>	<p>The trap may be used only for the purpose of killing grey squirrels, weasels, rats, mice, other small ground vermin (except for those species listed in Schedule 5 or 6 to the Wildlife and Countryside Act 1981) and, before 1 April 2020, stoat. The trap must be set in a natural or artificial tunnel which is, in either case, suitable for the purpose.</p>
<p><b>Springer No. 6 Multi-purpose</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, AB County Products Ltd., Unit 3, Wellington Works, 15 The High Street, Redditch, Worcestershire.</p>	<p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd gwiwerod llwyd, mincod, cwningod, gwencïod, llygod mawr, llygod, fermin daear bach arall (ac eithrio'r rhywogaethau hynny a restrir yn Atodlen 5 neu 6 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981) a chyn 1 Ebrill 2020, carlymod. Rhaid gosod y trap mewn twannel naturiol neu artiffisial sydd, yn y naill achos neu'r llall, yn addas at y diben.</p>	<p><b>Springer No. 6 Multi-purpose</b> manufactured by or under the authority of AB County Products Ltd., Unit 3, Wellington Works, 15 The High Street, Redditch, Worcestershire.</p>	<p>The trap may be used only for the purpose of killing grey squirrels, mink, rabbits, weasels, rats, mice, other small ground vermin (except for those species listed in Schedule 5 or 6 to the Wildlife and Countryside Act 1981) and, before 1 April 2020, stoat. The trap must be set in a natural or artificial tunnel which is, in either case, suitable for the purpose.</p>
<p><b>Tully Trap</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, KM Pressings Ltd, 37B Copenhagen Road, Sutton Fields Industrial Estate, Hull, East Yorkshire, HU7 0XQ.</p>	<p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd carlymod, gwencïod a llygod mawr. Rhaid gosod y trap mewn twannel naturiol neu artiffisial sydd, yn y naill achos neu'r llall, yn addas at y diben.</p>	<p><b>Tully Trap</b> manufactured by or under the authority of KM Pressings Ltd, 37B Copenhagen Road, Sutton Fields Industrial Estate, Hull, East Yorkshire, HU7 0XQ.</p>	<p>The trap may be used only for the purpose of killing stoats, weasels and rats. The trap must be set in a natural or artificial tunnel which is, in either case, suitable for the purpose.</p>

<p><b>VS squirrel trap</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, Pescon Services, 394 York Road, Stevenage, Hertfordshire, SH1 4EN.</p>	<p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd gwiwerod llwyd. Rhaid gosod y trap yn y twnnel artiffisial a ddarparwyd gan y gweithgynhyrchydd.</p>	<p><b>VS squirrel trap</b> manufactured by or under the authority of Pescon Services, 394 York Road, Stevenage, Hertfordshire, SH1 4EN.</p>	<p>The trap may be used only for the purpose of killing grey squirrels. The trap must be set within the artificial tunnel provided by the manufacturer.</p>
<p><b>WCS Collarum Stainless UK Fox Model</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, Wildlife Control Supplies, LLC, P.O. Box 538, East Granby, CT 06026, UDA.</p>	<p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben dal llwynogod.</p>	<p><b>WCS Collarum Stainless UK Fox Model</b> manufactured by or under the authority of Wildlife Control Supplies, LLC, P.O. Box 538, East Granby, CT 06026, USA.</p>	<p>The trap may be used only for the purpose of taking foxes.</p>
<p><b>WCS Tube Trap International</b> a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, Wildlife Control Supplies, LLC, P.O. Box 538, East Granby, CT 06026, UDA.</p>	<p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd gwiwerod llwyd, mincod, gwencïod, llygod mawr a chyn 1 Ebrill 2020, carlymod. Rhaid gosod y trap yn y twnnel artiffisial a ddarparwyd gan y gweithgynhyrchwr i'w ddefnyddio yn y DU.</p>	<p><b>WCS Tube Trap International</b> manufactured by or under the authority of Wildlife Control Supplies, LLC, P.O. Box 538, East Granby, CT 06026, USA.</p>	<p>The trap may be used only for the purpose of killing grey squirrels, mink, weasels, rats and, before 1 April 2020, stoat. The trap must be set within the artificial tunnel provided by the manufacturer for use in the UK.</p>
<p><b>WiseTrap 110</b> (eitem rhif 100110 neu 110110), <b>WiseTrap 160</b> (eitem rhif 100160, 110160, 101160 neu 111160), <b>WiseTrap 200</b> (eitem rhif 100200, 110200, 101200 neu 111200) a <b>WiseTrap 250</b> (eitem rhif 101250 neu 111250) a weithgynhyrchir gan WiseCon A/S, Skovgaardsvej 25, DK-3200 Helsingør, Denmark.</p>	<p>Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd llygod mawr. Rhaid gosod y trap mewn carthffos, pibell ddraenio neu strwythur tebyg.</p>	<p><b>WiseTrap 110</b> (article number 100110 or 110110), <b>WiseTrap 160</b> (article number 100160, 110160, 101160 or 111160), <b>WiseTrap 200</b> (article number 100200, 110200, 101200 or 111200) and <b>WiseTrap 250</b> (article number 101250 or 111250) manufactured by WiseCon A/S, Skovgaardsvej 25, DK-3200 Helsingør, Denmark.</p>	<p>The trap may be used only for the purpose of killing rats. The trap must be set within a sewer, drainpipe, or similar structure.</p>

©©Hawlfraint y Goron 2019

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2019

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.90

W201901101008 01/2019

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2019/18>

ISBN 978-0-348-20312-7



9 780348 203127